


papur



priordy



**YR ARGLWYDD YW FY MUGAIL
NI BYDD EISIAU ARNAF**

Salm 23

*Dewiswyd gan Ann Thomas
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 323
PAPUR MEHEFIN 2019**

Gair gan Beti-Wyn

Agor Y Llyfr

AR fore Gwener ola'r mis, mae criw bach ohonom - Jan Davies, Gareth Gravell, Mari Jenkins, Alison Parsons a Ffion Parsons o'r Priordy, Joan Thomas o Heol Awst ac Ann Davies o Flaenycod - yn ymweld ag Ysgol Y Dderwen i gyflwyno 'Agor Y Llyfr'. Rydych wedi gweld llun ohonom yn rhifynnau Papur Priordy.



Yr hyn a wnawn yw cyflwyno stori o'r Beibl. Mae un aelod o'r tîm yn darllen y Stori o Feibl y Plant, tra bo'r gweddill ohonom yn ei hactio. Mae'r gynulleidfa gyfan hefyd yn cael cyfle i gyfrannu i'r stori wrth iddynt ymateb i arwyddion yn eu hannog i guro dwylo, gweiddi 'Hwre' neu 'O na!' ynghyd â chyfraniadau torfol llafar eraill, yn dibynnu wrth gwrs ar eiriad y stori. Hefyd, gwahoddir hanner dwsin o blant i actio gyda ni bob mis, ac yn wir, mae'r rhai bach yn awyddus iawn i gymryd rhan a phob amser yn gwneud eu gwaith yn ardderchog.

Cynllun cenedlaethol yw 'Agor Y Llyfr' gan Gymdeithas y Beibl. Erbyn hyn, mae gwirfoddolwyr yn ymweld ag ysgolion ar hyd a lled y wlad gyda'r bwriad o alluogi pob plentyn oed ysgol gynradd i glywed prif storïau'r Beibl mewn ffordd syml a phleserus. Mae'n wasanaeth rhad sy'n cael ei gyflwyno gan dîm o Gristnogion o eglwysi lleol.



Mae pob storïwr yn glynu at y sgript. Stori o'r Beibl yw hi ac nid pregeth na gwers.

Un peth sy'n sicr, rydyn ni, criw 'Agor Y Llyfr', yn cael llawer iawn o hwyl wrth baratoi a chyflwyno'r stori bob mis. Mae'r plant yn edrych ymlaen at ein gweld ac Ysgol Y Dderwen, fel nifer o ysgolion eraill yr ardal, yn gefnogol iawn i'r cynllun ac yn fawr eu croeso.

Pam sôn am 'Agor y Llyfr' yn fy ngholofn y mis hwn? Wel, am ddau

reswm. Yn gyntaf, oherwydd bod 'Agor Y Llyfr' yn dathlu 20 mlynedd eleni. Llongyfarchiadau mawr a phen-blwydd hapus iawn i'r cynllun.

YN AIL, tybed a hoffech ymuno â'n tîm? Does dim angen i neb fod yn actorion o fri - mae pob stori'n syml iawn i'w chyflwyno. Rydym mewn angen dybryd am ddynion! Dim ond Gareth Gravell sydd yn ein plith ni fenywod. Oes unrhyw rai ohonoch chi'r dynion a fyddai'n fodlon bod yn gwmni iddo?!



Gweddi o ddiolch am Agor y Llyfr



Tragwyddol Dduw, rwyf ti'n bresennol ar bob adeg ac ym mhob man.

Rydyn ni'n diolch am yr hen straeon sy'n disgrifio sut wyt ti wedi bod gyda dy bobl.

Rydyn ni'n meddwl am y cymeriadau rydyn ni wedi clywed amdany'n nhw yn y straeon sy'n cael eu rhannu gennym.

Adda ac Efa, yn y dechrau; Noa, yn adeiladu llong; Abraham, Ffyddlon; Jacob, y Twyllwr; Joseff, y Breuddwydiwr; Moses, yr Arweinydd; Samuel, y Gwrandawr; Dafydd, y Brenin; Elias, y Proffwyd; Daniel, y Dyn Dewr; Iesu, yr Athro; Pedr, y Disgybl; Paul, yr Awdur. Cymaint o fywydau, cymaint o straeon, a'r cyfan yn un yn dy gariad, yn rhan o stori fythol y ddynoliaeth.

Rydyn ni'n diolch ein bod ni'n rhydd i rannu'r straeon hyn, ac yn diolch am y bobl sy'n rhoi o'u hamser i wneud i'r straeon ddod yn fyw o flaen ein llygaid.

Trwy'r straeon hyn, dysgwn fod dewisiadau a gweithredoedd yn bwysig; mae'n ffordd ni o fyw yn helpu eraill i weld dy bresenoldeb cariadus. Gyda help dy Ysbryd, gallwn wneud pethau rhyfeddol. Mae'n stori ni'n rhan o stori fwy dy gariad di.

Diolch i ti ein bod ni, trwy Agor y Llyfr, wedi dysgu mwy am dy gariad at bawb, a sut y gallwn ni helpu eraill.

Diolch am y bywydau sy'n cael eu newid wrth i ni gyflwyno'r straeon. Diolch i ti am yr holl hwyl a gawn.

Amen

Mis Mehefin	Darlleniad
Wythnos 1	Salm 97
Wythnos 2	Genesis 11: 1-9
Wythnos 3	Salm 8
Wythnos 4	Salm 42 a 43
Wythnos 5	Salm 77: 1-2; 11-20

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

EIRA PHILLIPS

GWEN WILLIAMS

DAVID a HEFINA LLOYD

JOHN a CARYS GREEN

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Cyfarfodydd Blynnyddol 2019

Rhyd-y-main, Brithdir, Tabor a Libanus, Ganllwyd

Cyfarfodydd yng nghapel Rhyd-y-main

Rhai Pigion

Dydd Iau 13 Mehefin

7.30 Oedfa o Fawl

Pregeth: Y Parchedig Gwyndaf Jones

Dydd Gwener 14 Mehefin

7.30: Cyflwyniad gan aelodau a chyfeillion Rhyd-y-main, Brithdir, Tabor a Libanus

Dydd Sadwrn 15 Mehefin

9.45: Cysdtadlaethau Cwpan Denman a Thylsau Cyfundeb Lerpwl. Siarad

Cyhoeddus, beirniadaethau a gwobrwyo.


11.45: Cloi Apêl Madagascar

TIPYN O SIOC!

Cafodd Eira a minnau dipyn o sioc wrth agor Rhifyn Mai o Bapur Priordy a gweld llun o'r cerflun - sef Y Clogyn – a darllen erthygl y Gweinidog. 'Pam y sioc, meddech chi? Wel, mae gennym ninnau gerflun tebyg yn ein cartref!



Roedd Eira a minnau ar ein gwyliau yng



ngwlad Groeg a galw heibio i dre Delphi lle roedd rhai o'r duwiau Groegaidd wedi byw. Wrth fynd am dro un min nos, galw i mewn i oriel hyfryd a gweld y cerflun mwyaf godidog (yn ein barn ni) a chael ein syfrdanu. Rhaid oedd ei brynu. A dyna a fu.

Bu tipyn o drafferth i gael y cerflun o Delphi i Gaerfyrddin – ond stori arall yw honno!

Yn ôl perchennog yr oriel, teitl y cerflun yw '*Y Gorffennol a'r Dyfodol*', hynny yw, rhyw stâd o fod yn ddiamser a bod y tu allan i amser.

Cawsom drafodaeth ddiddorol gydag e (a gyda llaw, bu'n caru â merch o Gaerdydd am dipyn) ac roedd ganddo ddehongliad diddorol. Iddo fe, roedd y clogyn yn cynrychioli holl rwysg ac ysblander yr Eglwys Babyddol ond yr allanol oedd hyn, Doedd dim y tu mewn i'r clogyn ond gwacter.



Mae gan Gwenallt soned ysgytwol sy'n sôn am rywbeth tebyg.

Enw'r soned yw 'Pechod':

**Pan dynnwn oddi arnom bob rhyw wisg,
Mantell parchusrwydd a gwybodaeth ddoeth,
Lliain diwylliant a sidanau dysg;
Mor llwm yw'r enaid.....**

Pawb â'i ddehongliad. Pawb â'i farn ond ni all dim leihau'r pleser a'r boddhad mae Eira a minnau'n ei gael o edrych ar ein cerflun.



Noder

Mae'r erthygl yn cynnwys llun o'r union gerflun sydd i'w weld ar aelwyd Wynne ac Eira.

	'Agor y Gair' <i>Cyfes Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg yng Nghaerfyrddin</i> Boreau Mercher 12, 19, 23 Mehefin a 3 Gorffennaf 2019 11.00 tan 12.00 Canolfan 'Yr Atom', Stryd y Brenin, Caerfyrddin Arweinwyr Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James Croeso cynnes iawn i bawb	
---	---	---

RHAGHYSBYSIAD GŴYL MAWL MEDI Dydd Sul 29 Medi 2019 – Y Priordy	
Yn y bore am 10 Hwyl Mawl Medi gyda'r Plant a'r Bobl Ifainc Arweinydd Rhys Griffiths a Band y Priordy	Yn yr hwyr am 5 Cymanfa Ganu Arweinydd Rhys Griffiths Eitem gan Gôr Meibion Caerfyrddin

Y GYMDEITHAS

Nos Lun 13 Mai 2019

PLESER mawr iawn oedd croesawu Llyr Huws Gruffydd, un o blant Y Priordy, i'n hannerch yn y Gymdeithas. Mae'n adnabyddus i ni i gyd fel mab Meinir a Peter a brawd i Meleri.



Mae hefyd, wrth gwrs, yn gyfarwydd fel Aelod Cynulliad (AC) yng Nghaerdydd yn cynrychioli Rhanbarth Etholiadol Gogledd Cymru. Mae'n byw yn Rhuthun a chyn ei ethol fel AC roedd yn Rheolwr Ymgynghori i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru.

Ar ôl darlleniad perthnasol iawn o *Salm y Genedl* o waith Jennie Eirian Davies gan Peter, tad Llyr, a chyflwyniad cynhwysfawr gan ein Gweinidog, dechreuodd Llyr ar hanes ei fywyd gwleidyddol yn y



Cynulliad – ond cyn hynny fe dalodd deyrnged i'w fagwrfa a'i brofiadau yn yr Ysgol Sul ac fel aelod o Gapel y Priordy a roddodd hyder a sail i'w yrfa arfaethedig.

Dechreuodd Llyr drwy esbonio'r broses o ethol Aelodau Lleol ac Aelodau Rhanbarthol cyn disgrifio'r noson fawr pan gafodd yntau ei ethol yn 2011 a'i ddiwrnod cyntaf fel AC. Esboniodd mai eitha prin oedd y

cyfarwyddiadau ynglŷn â'i swydd newydd. Fodd bynnag, daeth y bore Sadwrn pan oedd i gyflwyno'i hun i'r Cynulliad, a thyngu llw i'r Frenhines er mwyn dod yn aelod cyfreithiol ohono. Teithiodd ar y trê'n o'r gogledd i Gaerdydd ar y bore Llun cyntaf fel Aelod a phrofiad y diwrnod hwnnw'n fyw iawn yn ei feddwl. Wrth eistedd yn ei swyddfa newydd y daeth i sylweddoli'i fod yn rhan o Lywodraeth Cymru. Daeth hefyd yn ymwybodol iawn o'r holl gyfrifoldebau a fyddai'n disgyn ar ei ysgwyddau. Roedd '*fel diwrnod cyntaf mewn ysgol newydd...*'! Ond daeth i ddeall y drefn newydd yn gyflym iawn!

Mae yna batrwm strwythuredig i'r wythnos - dydd Llun er enghraifft yn cael ei dreulio yn yr etholaeth yn cwrdd â'r etholwyr, aelodau'r sefydliadau lleol a chynnal cyfarfodydd amrywiol neu syrjeris . Soniodd am amserlen Dydd Mawrth hyd Ddydd Iau yn y Cynulliad, yn cynnwys cyfarfodydd grŵp i ffurfio agenda am ddechrau'r wythnos, y trefniadau ar gyfer cwestiynau'r Prif Weinidog, holi gweinidogion unigol a phwysigrwydd gwahanol bwyllgorau yn y broses o wneud penderfyniadau. Yna, dychwelyd l'r etholaeth ar y dydd Gwener, i gynnal rhagor o gyfarfodydd ar lefel leol.

Soniodd Llyr am y pedair rôl sydd gan Aelod o'r Cynulliad. Yn gyntaf, mae'n cynrychiolu'r etholwyr ac mae ganddo yntau hanner miliwn yn ei etholaeth,, sef Rhanbarth Gogledd Cymru, sy'n cynnwys naw etholaeth a chwe sir - Wrecsam a Fflint, Conwy a Dinbych, Arfon ac Ynys Môn. Yr ail rôl yw craffu ar bolisiâu'r Llywodraeth, gwaith y Gweinidogion a deddfwriaeth ac ati. Y trydydd cyfrifoldeb yw deddfu sy'n gallu bod yn broses ddigon cymhleth a c astrus. Y pedwerydd rôl yw cyllidebu. Daw rhyw 16 biliwn o bunnoedd i Gymru o San Steffan ac mae'r Llywodraeth yn paratoi cyllideb ac yna wrth gwrs drafodaeth a phleidlais i'w derbyn neu'i gwrthod. Gall hyn olygu dod i gytundeb gyda phleidiau eraill er mwyn dod i benderfyniad.



Eglurodd Llyr ei fod fel Aelod Rhanbarthol yn gorfod cynrychioli buddiannau'r etholwyr y rhanbarth gyfan a bod rhaid camu'n ôl ar brydiau er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau er lles yr etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Er bod y swydd yn medru bod yn rhwystredig iawn weithiau, mae Llyr yn ei hystyried yn ffrainc i weithio dros bobl ac yn teimlo'n falch iawn o rai o'r mesurau a lwyddodd i'w hyrwyddo, fel y rhan a chwaraeodd yn cynnig gwelliant i greu Arolygaeth Cynllunio Annibynnol i Gymru ac yn sefydlu Amgueddfa Bêl-droed yn Wrecsam, gan lwyddo felly i ddod â sefydliad cenedlaethol Cymreig i ogledd-ddwyrain Cymru. Mae hefyd yn amlwg yn hyrwyddo mentrau i ddenu busnesau ac ymwelwyr i'r ardal honno.

Ychydig yn ôl pasiwyd deddf yn y Senedd, sef Deddf yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru – Deddf sy'n gorfodi'r ombwdsman i dynhau'r modd mae'n edrych ac yn ymateb i gwynion.

Roedd Llyr yn arwain ar y ddeddf hon - y ddeddf gyntaf erioed i gael ei phasio gan bwyllgor yn y Senedd ac yntau oedd yr aelod Plaid Cymru cyntaf i gyflawni hyn.

HEB os nac oni bai mae'n amlwg fod Llyr yn weithiwr brwd ac effeithiol ac yn brwydro dros degwch a Chymreictod. Braint oedd cael bod yn bresennol gyda'r gynulleidfa niferus a ddaeth i gefnogi'r bachgen o Gaerfyrddin. Siaradodd gyda didwylledd a huodledd ac mae'n prysur ddod yn un o wleidyddion amlycaf Cymru.



ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN yn cyflwyno:

GŴYL Y SUL SBESIAL

Yn Yr EGIN 14 GORFFENNAF 2.00-3.30

IOLA WYN yn holi EMYR LEWIS am ei ffydd Gristnogol

Cyflwyniad gan **MELERI CRAY**
Pennaeth Cymdeithas y Beibl, Cymru

RHODRI DARCY
yn arwain sesiwn i'r bobol ifanc:
FFILMIO a GOLYGU
yn y caffi seiber
(dewch â'ch cluniadur)

NIGEL DAVIES â Bwrlwm Bro i'r plant

Bydd cyfle i brynu te, coffi neu ddiod feddal a chacennau o'r caffi – a chael clonc!
Croeso Cynnes i bawb. Dewch i fwynhau!

CWRDD Â PHILIP JONES

Mae Philip yn un o ddiaconiaid y Priordy ac yn ŵr busnes yn nhref Caerfyrddin. Bu Papur Priordy'n ei holi:



PP: Wel, i ddechrau Philip, yn gweld fod busnes Max Evans yn y dref yn dod i ben. Ers pryd wyt ti wedi bod yn gysylltiedig â'r siop?

PJ: Des i yma 43 o flynyddoedd yn ôl i siop fy wncl, Max Evans a fu farw ym mis Hydref y llynedd. Cyn hynny, ro'n i'n gweithio gyda Banc y Nat West – yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth a Llundain.

Pan o'dd sôn am i mi symud gyda'r banc i Birmingham penderfynes ddod adre i weithio yn y siop.

PP: Ond beth am hanes y siop – ei dechrau ac yn y blaen?

PJ: Wel, Max Evans ddechreuodd y busnes yn y lle cyntaf. Bu gyda *Harrods* yn Llundain ac ar ôl dychwelyd i Gaerfyrddin gyda Siop Adrannol Sidney Heath yn Heol y Santes Fair cyn sefydlu Siop Ddillad Dynion Max Evans ym 1969 yn Heol Las. Mewn gwirionedd felly, ro'dd cyswllt gyda fi â'r siop o'r dechrau cyntaf ac roedd hi'n ddigon hawdd cael fy nenu yno o'r banc.

PP: Sut wnest ti fwrw dy brentisiaeth?

PJ: Dysgais i lawer pan oeddwn yn gweithio yn y banc, Roedd pethau'n fwy personol y pryd hwnnw a chyfle da i rywun gwrdd â gwahanol gwsmeriaid a busnesau a gweld pob math o sefyllfaoedd. Ces i hefyd gyfleoedd i weithio mewn siopau adrannol fel *House of Fraser* a *Barkers of Kensington* a hefyd ffatrioedd, fel *Van Heusen* (gwneuthurwyr crysau) yn Taunton a *Morlands* (gwneuthurwyr dillad croen dafad) yn Glastonbury. Roedd y cyfan yn ysgol brofiad dda ac yn help mawr i mi ymsefydlu yn y siop.

PP: Rwyf ti wedi dod ar draws miloedd o gwsmeriaid yn ystod dy gyfnod wrth y gwaith. Elli di feddwl am unrhyw droeon trwstan sydd wedi digwydd i ti?

PJ: Wel, dw i'n cofio gŵr bonheddig yn dod i'r siop un tro i gael

siwt newydd. Wrth ei fesur, dyma fi'n gofyn iddo sawl fent roedd e eisiau yn y siaced. *'Beth yw hynny?'* gofynnodd. Es i ymlaen i esbonio beth oedd fent a bod modd cael un ar waelod y siaced yn y canol neu un ar bob ochr iddi. *'Oes gwahaniaeth yn y pris?'*, gofynnodd. Ar ôl deall nad oedd dyma fe'n dweud *'Wel, fe ga i'r tair fent 'te'!!'* Dw i hefyd yn cofio'r Cynol Buckley, Castell Gorfod, yn dod i brynu sanau un tro. Byddai bob amser yn fy nghyfarch fel *Master Philip*. A dyma fe'n gofyn i mi: *'Wyt ti'n ti'n berffaith siŵr fod y sanau yma'n mynd i fy ffitio?'* Ar ôl cael cadarnhad dyma fe'n dweud: *'Wel rho nhw ar fy nghraed yn awr 'te'!* Mae gweithio yn y siop yn gallu bod yn waith digon caled a blinedig ond diolch bod digon o hwyl i'w gael hefyd ar brydiau!



PP: Beth yw'r newidiadau mawr yn y busnes rwyd ti wedi sylwi arnynt dros y blynyddoedd?

PJ: Un o'r pethau mwyaf trist, yn fy marn i, yw nad oes fawr o ddillad yn cael eu gwneud yng ngwledydd Prydain mwyach. Rhaid troi at farchnadoedd yn Ewrop a thu hwnt am gyflenwadau. Daeth newid yn sgîl y we. Dyw hynny ddim yn ddrwg i gyd ac mae'n gallu bod o help i fusnes, yn enwedig er mwyn cael cyhoeddusrwydd. Mae tref Caerfyrddin wedi newid llawer hefyd. Dw i'n cofio ffatri *Hide & Skin* dros y ffordd i ni yma yn Heol Las! Wedi dweud hynny, dw i'n sicr fod y dre wedi newid er gwell! O ran steil dillad dynion, wel, mae'n newid fel mae'r rhod yn troi. Mae rhywbeth sy'n hen ffasiwn heddiw yn ôl yn y ffasiwn yfory! Cymerwch waelod trowsusau er enghraifft - un funud maen nhw'n gul a'r funud nesa maen nhw'n llydan!

PP: Rwyd ti'n hysbysebu'r busnes ar y teledu yn Gymraeg. A fyddet ti'n dweud fod defnyddio'r Gymraeg yn bwysig i'r cwsmeriaid yn y siop?

PJ: Mae'n talu ffordd ar ei ganfed. Byddech yn synnu faint sy'n dod i'r siop yn dweud eu bod wedi fy ngweld ar y teledu! Rhaid dweud fy mod i'n rhyfeddu faint sy'n gwylio S4C, yn cynnwys pobl ddi-Gymraeg. Dw i wedi cael pob help gyda'r hysbysebu yn Gymraeg hefyd. Dim ond daioni sy wedi dod i mi drwy hysbysebu ar S4C.

PP: ‘*Yn tynnu yma i lawr, yn codi draw*’ meddai geiriau’r hen emyn. Mae’n wir hefyd amdanat ti, Philip. Tra bo un busnes yn cau mae un arall yn agor....!

PJ: Wel ie, Arafu ychydig dw i am ei wneud ac nid gorffen yn llwyr. Bydd y siop ddillad fel mae hi heddiw’n cau yn yr haf ond bydd Siop Barbour yn dod yn ei lle. Mae Barbour yn frand enwog iawn, wrth gwrs, ac yn gwmni teuluol Prydeinig. Dw i’n edrych ymlaen at y fenter newydd hon. Bydda i’n parhau yn y siop ond yn treulio ychydig llai o amser yno.

PP: Sut wyt ti’n gweld y dyfodol y Stryd Fawr, Philip?

PJ: Dyw pethau ddim yn hawdd y dyddiau hyn, rhaid cyfaddef. Ond mae’r cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach wedi bod o help mawr i ni. Mater arall yw ffawd y siopau mawr. Maen nhw’n dioddef gan fod y trethi busnes mor uchel a hwythau’n gorfod cystadlu â’r siopau ar lein sy’n rhydd o’r trethi hyn. Ar yr un pryd, dw i’n credu y bydd angen i lawer o siopau bach ailfeddwl ychydig yn y dyfodol a throï’n fusnesau mwy arbenigol.

PP: Rwyf ti, Jayne a Lucy’n ffyddloniaid yn y Priordy. Mae’n amlwg fod y capel yn bwysig i chi.

PJ: Roedd ‘nhad [Tom Jones] yn Ysgrifennydd Capel Noddfa, Foelcwan am flynyddoedd maith ond dilyn fy mam [Margaret Jones] wnes i i Eglwys Dewi Sant. Pan ddaeth Lucy i Jayne a minnau roeddem eisiau iddi gael Ysgol Sul Gymraeg. Roedd hi’n ddisgybl yn Ysgol y Dderwen ble roedd Chris Lloyd yn athrawes a Beti-Wyn yn cynnal gwasanaethau’n gyson a cham naturiol i ni fel teulu felly oedd dod i’r Priordy. Rydym wedi cael croeso bendigedig gan bawb. Roeddwn yn ‘nabod llawer yma beth bynnag – bues i gyda Sulwyn a Glenys yn Aelwyd yr Urdd a Wynne Jenkins yn fy nysgu yn yr ysgol. Ac mae’r bobl newydd yn y Priordy wedi bod yr un mor gyfeillgar. Ein braint ni fel teulu yw ceisio rhoi rhywbeth yn ôl i’r capel yn awr.



PP: Yng nghanol prysurdeb bywyd, mae lle i hamddena, siŵr o fod, Philip!

PJ: Mae'n gallu bod yn anodd oherwydd oriau'r siop ond pan fo cyfle mae Parc y Scarlets yn denu. Yn ogystal, mae Jayne a minnau'n hoffi mynd i weld y rygbi yn Heol Sardis, Pontypridd, lle mae gwreiddiau Jayne. Cawn fynd ar wyliau hefyd ac rydyn ni'n gobeithio cael mwy o oriau hamdden ar ôl yr haf!



Diolch yn fawr iawn am ateb y cwetiynau, Philip, a phob lwc gyda'r fenter newydd.

**YSGOL HAF GWEINIDOGION
YR ANNIBYNWYR**

**Nos Lun 24 Mehefin 2019 am 7.30pm
Canolfan Halliwell, Prifysgol Cymru y
Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin**

COFIO DIC

gan

IDRIS REYNOLDS

Darlith Goffa W T Pennar Davies ac R Tudur Jones

Yn agored i'r cyhoedd - Croeso cynnes i bawb



TE AMNEST

Nos Sul 30 Mehefin 2019 – 5.30pm - Y Tabernacl

Croeso cynnes i bawb



CRISTNOGAETH 21

Cynhadledd Flynyddol

WYNEBU YFORY MEWN EWROP NEWYDD

Dydd Sadwrn 6 Gorffennaf 2019

Capel Salem, Treganna, Caerdydd

Cyfranwyr

Dr Aled Eirug

Y Parchedig Gethin Rhys

Dr Elin Royles

Tâl Cofrestru: £10 ar y dydd Pob un i ddod â'i ginio'i hun.

Manylion pellach

www.cristnogaeth21.cymru

CWIS MEHEFIN



Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'M'

Mae'r atebion i gyd yn y Beibl

1	M								
2	M								
3	M								
4	M								
5	M								

Cliwiau

1	Llygriad, pydredd (Deuteronomiwm 28:12)
2	Yr un enw ar Miriam yn yr Hen Destament (Actau 1:14)
3	Mab hynaf Joseff (Genesis 41:51)
4	Cyfeirir ato yn yr adnod hwn fel esiamp! o ddiwydrwydd (Diarhebion 6:6)
5	Prysgwydden fytholwyrdd gyda blodau gwynion prydferth arni

***Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!
Atebion yn y rhifyn nesaf***

ATEBION CWIS MAI

1. Mwstard 2 Mulfran 3 Mintys 4 Midin 5 Moreia

DYMA'R UNDEB

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg


Rhifyn 51 (Gwanwyn 2019)

Copïau ar gael yn y cyntedd i'w dosbarthu ymhlith yr aelodau





HWYL YN YR YSGOL SUL



Cafodd Plant Dosbarth Canol yr ysgol Sul hwyl arni'n ddiweddar yng nghwmni **Rebecca Hayes**.

Roedden nhw wedi bod yn nodi pen-blwydd marw **John Hughes (1873-1932)**, cyfansoddwr y dôn *Cwm Rhondda*.



Cyfansoddodd e'r dôn hon ar gyfer cymanfa ym Mhontypridd ym 1905.

Thema'r plant oedd Ysgol Sul y Priordy a dyma nhw'n mynd ati i gyfansoddir emyn eu hunain:

*Ry'n ni'n dysgu am yr Iesu,
Ac yn dathlu amser Pasg.
A ni'n clywed am y Nadolig
Anrhegion o aur a thys a myr.*

*Yn yr Ysgol Sul,
Yn yr Ysgol Sul
Yn Priordy Caer-fyr-ddin
Ma' hi'n hwyl a sbri yn wir i chi.*



MIC MABOLGAMPAU DAN DO



18 Mehefin 2019: Mabolgampau Gorllewin Y Sir.

26 Mehefin 2019: Mabolgampau Dwyrain Y Sir

10 Gorffennaf 2019: Mabolgampau (Rowndiau Terfynol Y Sir)

GWASANAETH HAF CARTREF PLAS Y DDERWEN

Bore Gwener – 21 Mehefin 2019– 11 o'r gloch
gyda'n

Gweinidog

Croeso i bawb




YR ALWAD



YR ALWAD

Cyfrol a ryddhawyd o'r Wasg yn ddiweddar yw **Yr Alwad** sy'n cynnwys hanes galwad dros ugain o weinidogion ac offeiriadon i'r Weinidogaeth Gristnogol yng Nghymru. Ceir tystiolaeth gan weinidogion o bob oed - rhai wedi ymddeol ac eraill yn cychwyn ar y daith. Yr ymdeimlad o alwad Duw sy'n eu clymu ynghyd.

Beti-Wyn James ac Aled Davies fu'n gyfrifol am y casglu ac mewn pennod ragarweiniol mae Noel A. Davies yn esbonio sail ddiwinyddol 'Galwad Gristnogol'.



Daw'r gyfrol o stabl Cyhoeddiadau'r Gair a'i phris yw £8.99.

Yn ystod y tridiau 14-16 Mai 2019, lansiwyd y gyfrol mewn tair canolfan –y Tabernacl Caerdydd, y Priordy Caerfyrddin ac Eglwys Noddfa Caernarfon.

Yn y Priordy, cawsom air gan y Parchedigion Aled Davies, Beti-Wyn James, Dr Noel A Davies, John Gwilym Jones, Peter Thomas a Gwyn Elfyn Jones – y cyfan ohonynt ymhlith y rhai sy'n cyfrannu yn y gyfrol. A chlywsom gywydd ar y testun *Yr Alwad* gan y Prifardd Tudur Dylan Jones sydd i'w weld yn gynnar yn y gyfrol.

Wedi'r lansio, bu cyfle i ni fwynhau paned â'n gilydd ac i brynu'r gyfrol a derbyn llofnodion y cyfranwyr.

Diolchwn am bawb sydd wedi'u galw i wasanaethu Duw drwy'r Weinidogaeth Gristnogol - am eu gwaith a'u harweiniad ac am ddangos i ni obaith yr Efengyl heddiw yn ein canrif ni. A boed i ninnau roi o'n gorau i'w cynorthwyo ym mhob rhyw fodd i gynnal fflam y Ffydd y dyddiau hyn.



MORGAN LLWYD O WYNEDD

1619 – Mehefin 1659

UN O BLANT Y GOLEUNI

Rydym yn cofio eleni am bedwar canmlwyddiant geni un o bersonau mwyaf nodedig Cymru yn y 17 ganrif, sef Morgan Llwyd o Wynedd - gŵr y bu rhan fawr ganddo yng nghyffroadau crefyddol a gwleidyddol Cymru'i gyfnod

Fe'i ganed mewn plasty gwledig yng Nghynfal-fawr, Maentwrog ym Meirionnydd. Derbyniodd ei addysg ffurfiol yn Wrecsam ac yno hefyd ym 1635 y cafodd droedigaeth drwy'r Piwritan a'r diwinydd Walter Cradock, curad eglwys y dref ar y pryd. Ymunodd â Cradock yn Llanfair Dyffryn Tefeidiad, Swydd Amwythig, ac yn ddiweddarach aeth gydag e i Lanfaches yn Mynwy lle sefydlwyd yr eglwys gynulleidfaol Gymreig



gyntaf ym 1639 (lle bu'n Gofalaeth ar bererindod un flwyddyn). Yn ystod ei gyfnod yno priododd ag Ann Herbert a chawsant o leiaf un ar ddeg o blant.



Pan ddechreuodd y Rhyfel Cartref rhwng Siarl 1 a'i Senedd ym 1642 gyda'r Brenin roedd cydymdeimlad

y rhelyw o Gymru a bu rhaid i'r Piwritaniaid ffoi i Loegr. Aeth pobl Llanfaches ar ffo i Fryste ac yna i Lundain ac anfonodd Llwyd ei wraig a'i blant at ei fam yng Nghynfal ac ymuno â byddin y Senedd yn gaplan. Ym 1644 fe'i hanfonwyd fel pregethwr teithiol i ogledd Cymru gan y Senedd ac ymsefydlu ym Mrynffynnon yn Wrecsam. Ym 1650, ychydig dros flwyddyn wedi i'r Seneddwr ddienyddio Siarl I, cyflwynwyd Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru. O'r flwyddyn honno hyd 1653 roedd Llwyd yn Brofwr dan y Ddeddf hon, gan fod yn gyfrifol am ddod o hyd i weinidogion cymwys i gymryd lle'r rhai a gafodd eu diswyddo o'r plwyfi. Bu'r Ddeddf yn gyfrwng i ledu'r Efengyl yn ei

gwedd Biwritanaidd i blwyfi na chawsant gyfle i'w chlywed cyn hynny ond cyfyng ar y cyfan fu'i heffaith ar Gymru. Ym 1659, dan yr Eglwys Wladwriaethol a sefydlwyd yn ystod y Gymanwlad, gwasanaethodd Llwyd yn weinidog eglwys plwyf Wreccsam ond bu farw'n ddiweddarach ym mis Mehefin y flwyddyn honno. Mae'i fedd ym mynwent Rhos-ddu yn Wreccsam, lle dadorchuddiwyd cofgolofn iddo gan y Fonesig Margaret Lloyd George ym mis Ebrill 1912. Enwyd Ysgol Morgan Llwyd Wreccsam ar ei ôl ac enillodd Crwys Goron yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1919, blwyddyn tri chanmlwyddiant ei eni, am ei awdl *Morgan Llwyd o Wynedd*.



Roedd Llwyd yn rhyddieithwr arbennig o goeth. Cyhoeddodd un ar ddeg o weithiau, wyth yn y Gymraeg a thri yn y Saesneg. Y mwyaf adnabyddus o'r rhain yw *Llythyr i'r Cymry cariadus*, *Gwaedd ynghymru yn wyneb pob cydwybod a Llyfr y Tri Aderyn*.

Ysgrifennodd farddoniaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ond nid yw'n rhagori i'r un graddau fel bardd. Ymddangosodd casgliad o'i gerddi, sef *Hen Lyfr Bach: Cerddi Morgan Llwyd* (gol. Dafydd Glyn Jones) yn 2016,

Mae gwaith Llwyd yn amlygu argyhoeddiad ysbrydol dwfn a dylanwadwyd arno'n fawr gan dri mudiad yn bennaf. Un ohonynt oedd y Crynwyr. Roedd diddordeb mawr ganddo yng nghredo'r Crynwyr a rhannai lawer o'u daliadau. Dylanwad arall oedd Jakob Böhme, y cyfrinydd Lutheraidd o'r Almaen. Cyfieithodd Llwyd ddau o'i lyfrau i'r Gymraeg ac mae cyfriniaeth yn elfen amlwg yn ei weithiau gwreiddiol. Roedd hefyd dan ddylanwad Plaid y Bumed Frenhiniaeth. Roedd y Pumed Frenhinwyr yn credu fod hanes y byd yn ymrannu'n bum cyfnod yn ôl goruchafiaeth pum teyrnas, sef Asyria, Ymerodraeth Persia, Groeg a'r Ymerodraeth Rufeinig: Teyrnas Crist ar y Ddaear fyddai'r bumed a'r olaf. Prin fu dylanwad y Blaid yng Nghymru ond roedd Llwyd yn dangos gryn gydymdeimlad â'i hamcanion.

Roedd Llwyd yn ŵr o argyhoeddiad crefyddol ac ysbrydol dwfn ac angerddol a'i ddyhead mawr oedd gweld Cymru yn Gymru i Grist.

I orffen, dyma ddyfynnu tri phennill o'i waith sydd i'w gweld ar wedd emyn yn **Y Caniedydd (Rhif 134)**:

Bendith mewn Trallod

**Yr ydym yma yn dy ŵydd
O! Arglwydd, danfon fendith,
Ac Ysbryd Crist, i'n helpu ni
I'th geisio Di'n ddiragrith.**

**Y mae'n heneidiau gwan eu hwyl
Yn chwennych disgwyl arnat;
Ti elli'n tynnu o'r holl ddrwg
Trwy Grist – mae'n golwg arnat.**



**Gwna'n dda bob gair addewaist Ti,
Ac arnom ni disgleiria;
Ac i'th holl bobloedd danfon lwydd;
I'r farn, O! Arglwydd, brysia.**

Tôn [MS 8787]: Cymundeb (Caradog Roberts 1878-1935)



COGINIO YN YR YSGOL SUL



**Does ryfedd fod awch y plant i fynd o'r capel i'r Festri un
bore Sul yn amlwg iawn gan mai gwers Feiblaidd drwy
goginio oedd yr arlwy!**

**Hyfryd oedd y wên ar wynebau'r plant wrth iddynt fynd
adre'n cario'u teisennau deniadol ar ffurf crud a wyneb y
baban Moses yn wên i gyd arnynt.**

**Diolch yn arbennig i Jayne Woods, Elin Wyn, Jac Thomas a
Syfi Rolant am eu harweiniad a'u cymorth.**

Mae'r lluniau i'w gweld yn y rhifyn hwn

COGINIO YN YR YSGOL SUL



Ifanc@Priordy



Pob lwc i bawb yn y
Mabolgampau! Gwnewch
eich gorau!




Smartîs!

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu
wrthi'n llenwi'r blychau Smartîs! Da iawn
chi am gefnogi Apêl Madagascar!

Dyddiadiadur yr	Ysgol Sul a	PIP
Mehefin 2	Ysgol Sul	PIP
Mehefin 9	Dim Ysgol Sul	Dim Ysgol Sul
Mehefin 16	Oedfa Deulu	Oedfa Deulu
Mehefin 23	Dim Ysgol Sul	Dim Ysgol Sul
Mehefin 30	Ysgol Sul	PIP i aros yn yr oedfa
Gorffennaf 7	Parti!	Parti!

I'ch dyddiadur!

Gorffennaf 14 – Yr Egin



Hwyl
am y
tro.
Tan y
mis
nesaf,
Betl-
Wyn



COGINIO YN YR YSGOL SUL



Dr Huw Michael...

Newid hinsawdd - 2

Y r ail o dair erthygl yn ymwneud â'r pwnc pwysig hwn.



Fis diwethaf buon ni'n ystyried y dystiolaeth fod yr hinsawdd yn newid, a'r tebygrwydd fod gweithgareddau dynol yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd yn yr effaith tŷ gwydr, sydd o ganlyniad yn cynhesu'r Ddaear.

Er i ni gydnabod taw ffenomenon byd eang yw newid yr hinsawdd, mae'n werth edrych ar ba gamau mae'r DU / Prydain wedi'u cymryd i gwtogi ar allyriadau CO₂, fel cyfraniad at yr ymdrech fyd eang.


Y gwir yw, er gwaethaf barn rhai mudiadau amgylcheddol, fod Prydain wedi bod ar flaen y gad wrth gwtogi ar allyriadau CO₂. Er 2008, mae deddf wedi bodoli (Deddf Newid Hinsawdd 2008) sy'n ymrwymo llywodraeth Prydain i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050 o 80% o gymharu â lefelau 1990 h.y. i gyrraedd allyriadau blynyddol yn 2050 fydd 80% yn llai na 1990. Mae'r llywodraeth wedi gosod "cyllideb garbon" (carbon budget) bob pum mlynedd. Mae gostyngiad allyriadau nwyon tŷ gwydr hyd yn hyn wedi bod yn well na'r cyllidebau a gytunwyd ar gyfer 2008-12 a 2013 -2017, ac mae'n edrych yn debyg y bydd 2018-22 yn well na'r gyllideb ar gyfer y cyfnod rydyn ni ynddo fe nawr. Ar ddiwedd 2017 roedd allyriadau nwyon tŷ gwydr Prydain 43% yn is na'r lefel yn 1990. Mae hyn yn dipyn o gamp, yn enwedig o ystyried fod yr economi wedi tyfu'n sylweddol er 1990.

Cwestiwn teg felly yw gofyn sut ar y ddaear mae Prydain wedi llwyddo cystal?

Mae'r gostyngiad mwyaf sylweddol wedi bod yn y sector cynhyrchu trydan. Yn bennaf o ganlyniad i ddefnyddio tyrbinau nwy yn lle pwerdai glo (mae 50% yn llai o allyriadau CO₂ trwy ddefnyddio nwy yn lle glo) a hefyd y twf yn nefnydd tyrbinau gwynt ar y tir yn ogystal ag ar y môr. Ar ben hyn mae llai o drydan yn cael ei ddefnyddio o ganlyniad i declynnau mwy effeithlon e.e. oergell / rhewgell / peiriannau golchi / peiriannau sychu / bylbiau golau LED ac yn y blaen. Tua 15% yn llai o ddefnydd o drydan o gymharu â'r flwyddyn 2000. Yn 2018 ar gyfartaledd cafodd 40% o drydan Prydain ei gynhyrchu gan dyrbinau nwy, 21% gan wynt/ solar a 20% o ynni niwclear. Mae'n hysbys fod datblygiadau ynni niwclear newydd yn gostus, ac mae Llywodraeth y DU wedi dangos yn barod nad ydynt yn fodlon gwarantu pris digonol am y trydan fyddai pwerdai ynni niwclear yn ei gynhyrchu

e.e. y penderfyniad diweddar i oedi datblygiad y Wylfa Newydd yn Sir Fôn), heb sôn am ddatblygiadau mwy arloesol fel Morlyn Bae Abertawe.

Er y llwyddiant yn y sector cynhyrchu trydan, dyw'r gostyngiadau ddim wedi bod yn sylweddol yn y sectorau eraill fel y sector cynhesu adeiladau, y sector diwydiant a'r sector trafndiaeth.



Mae'r sector trafndiaeth (trafndiaeth ar ein heolydd, a thrafnidiaeth awyr)

yn cynrychioli 40% o'r holl ynni sy'n cael ei ddefnyddio ym Mhrydain. Er iddo fod yn llai nawr nag oedd yn 2007 (y flwyddyn cyn y dirwasgiad yn 2008), mae ar gynnydd unwaith eto erbyn hyn. Mae effeithlonrwydd peiriannau cerbydau wedi gwella (mwy o filltiroedd i'r galwyn) ond mae'r effaith gadarnhaol hon wedi'i gwrthbwyso gan fwy o ddefnydd o drafnidiaeth. O fewn y sector hwn mae'n ddiddorol sylwi fod y cynnydd yn nhratndiaeth nwyddau yn fwy na thrafnidiaeth bersonol. Hefyd, mae'r cynnydd yn nhratndiaeth nwyddau'n bennaf oll o ganlyniad i fwy o faniau (yn cludo nwyddau Amazon i'n cartrefi, yn debyg iawn!). Eto, heb grebachu'r economi, yn raddol bydd gwelliannau pellach. Mae disgwyl i geir trydan yn raddol i ddisodli ceir petrol/ diesel, ond mae gwaith i'w wneud i ddenu mwy o bobl i brynu ceir trydan gan gynnwys gostwng eu pris nhw, sicrhau bod modd aildrydanu'n hwylus, a chynyddu pa mor bell y gellir mynd cyn bod angen aildrydanu. Ac wrth gwrs bydd angen cynhyrchu mwy o drydan i ateb y cynnydd mewn ceir trydan, a bydd hynny yn galw am fwy o ddefnydd o dyrbinau nwy yn debyg iawn. Er hynny mae'r gost o redeg car trydan yn debyg o fod yn llai na chost rhedeg car petrol / diesel, unwaith y byddwch wedi prynu'r car. Felly dyw trydaneiddio'r sector drafnidiaeth ddim yn golygu atal allyriadau CO₂ yn gyfangwbl o bell ffordd.

Yn y sector cynhesu adeiladau wedyn, mae'r defnydd o ynni wedi gostwng ryw 15% er 2002 o ganlyniad i effeithlonrwydd boileri, mwy o insiwleiddio, a mwy o dai newydd (fel canran o'r holl dai) wedi'u hinsiwleiddio'n dda a'u gwresogi gyda phympiau gwres (heat pumps). Mae'n anodd gweld o ble bydd gwelliannau sylweddol pellach yn dod heblaw bod tai newydd yn disodli canran helaeth o hen dai. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwahardd boileri nwy/ olew mewn tai newydd ac yn gorfodi lefel uchel o insiwleiddio a defnydd pypiau gwres. Mae gwella insiwleiddiad waliau hen dai'n ddigonol i gyfiawnhau defnyddio pypiau gwres yn fater costus dros ben, ac mae'n anodd gweld cymhorthdal digonol gan y Llywodraeth i achosi perchnogion i fod yn fodlon ymgymryd â'r gwaith sylweddol

fyddai'ii angen. A rhaid cofio wrth gwrs fod poblogaeth y wlad yn tyfu ac felly'r angen am fwy o gartref.

Sut mae cyrraedd y nod o leihad o 80% yn allyriadau CO₂ erbyn 2050 o gymharu â 1990? (heb sôn am y nod mwy heriol fyth o ddiddymu allyriadau CO₂ (net) y bu cymaint o sôn amdano yn y wasg ddechrau mis Mai). Mae technoleg yn mynd i helpu. Er enghraifft:

- Mae tyrbinau gwynt ar y môr yn costio llai wrth i lafnau mwy gael eu datblygu, sy'n lleihau'r gost am bob uned o drydan. Mae hyn yn debyg o gynyddu faint o drydan sy'n cael ei gynhyrchu o'r ffynhonnell hon. Mae tyrbinau gwynt ar y tir yn llai effeithlon am nad oes digon o wynt lawer o'r amser. Maent hefyd yn amhoblogaidd ar y cyfan o ganlyniad i'w heffaith andwyol ar ein tirwedd.
- Mae technoleg storio trydan (batriau) yn datblygu ar lefel leol, ond ddim eto wedi disodli'r angen i gynhyrchu trydan drwy'r grid cenedlaethol.
- Mae modd dal y CO₂, sy'n cael ei gynhyrchu mewn pwerdai tyrbinau nwy er enghraifft, cyn iddo ddianc i'r awyr, a'i gywasgu ac yna'i chwistrellu i greigiau dan y tir neu'r môr. Yr hyn a elwir yn CCS (Carbon Capture and Storage). Nid yw'r llywodraeth eto wedi bod yn barod i roi'r cymhorthdal angenrheidiol i ddatblygu'r dechnoleg hon yn sylweddol. Fe fyddai hyn yn gam mawr at y nod o gynhyrchu trydan heb unrhyw allyriadau CO₂.
- Mae peth gwaith wedi'i i wneud i drawsnewid methan (CH₄) i hydrogen (H₂), ac mae rhai'n awgrymu y gellid defnyddio'r rhwydwaith nwy presennol ar gyfer hydrogen, ond mae H₂ yn debyg o fod yn lawer mwy costus na'r nwy naturiol presennol.



Ar ben hyn mae ailblannu coedwigoedd yn mynd i dynnu mwy o CO₂ o'r atmosffer a gwrthbwysu cynnyrch CO₂ o ganlyniad i weithgareddau dynol.

Beth allwn ni fel unigolion ei wneud i leihau ein hól troed carbon (carbon footprint)?

Dyma rai enghreifftiau, pob un yn lleihau'n defnydd o danwydd:

- Defnyddio car llai - cerdded neu ddefnyddio beic yn lle'r car
 - defnyddio'r bws neu'r trê'n yn lle car - rhannu car i fynd i'r gwaith- defnyddio car sy'n gwneud mwy o filltiroedd i'r galwyn.



- Newid ein car i gar trydan - er bod angen cynhyrchu mwy o drydan mae llai o allyriadau CO2 o dyrbinau nwy nag sydd o beiriant petrol neu diesel.
- Defnyddio llai o drydan yn y cartref - y lein ddillad yn lle'r peiriant sychu - troi'r thermostat i lawr ychydig yn y gaeaf a gwisgo mwy o ddillad - dim ond gwresogi'r ystafelloedd rydych yn eu defnyddio - dim ond berwi cymaint o ddŵr ag sydd ei angen yn y tegell - cawod yn lle bath- diffodd trydan y teledu a'r cyfrifiadur dros nos- gofalu bod ein llofftydd wedi'u hinsiwleiddio.

Efallai fod y rhain yn swnio fel camau bach, ond pe bai pawb yn torri i lawr ryw faint byddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol.

Yn ddiweddar yn y wasg mae sôn wedi bod am “argyfwng hinsawdd” a nifer o gynghorau (gan gynnwys Sir Gâr) a llywodraethau Cymru a San Steffan yn cyhoeddi argyfwng hinsawdd. Fel gweithred symbolaidd efallai fod gwerth yn hyn. Ond nid yw, ar ei ben ei hun, yn newid dim. Mae cymryd y camau sydd eu hangen i gyrraedd targed 2050 yn mynd i fod yn gostus a'r gost yn cwmpo ar ysgwyddau'r cyhoedd (rydym eisoes yn talu 10% ychwanegol ar ein biliau nwy a thrydan er mwyn rhoi cymhorthdal i ffynonellau ynni cynaliadwy). Y cwestiwn llosg fydd sut mae gwneud y newidiadau sydd eu hangen heb grebachu'r economi (ac yn sgîl hynny greu mwy o galedi ariannol yn y wlad).

Gan gofio taw dim ond am tua 1% o allyriadau carbon y byd y mae Prydain yn gyfrifol amdano, mae'n deg gofyn a oes angen iddi fod yn geffyl blaen yn yr ymdrechion i gyfyngu ar allyriadau carbon os yw hyn yn mynd i fod ar draul yr economi. Dw i heb glywed unrhyw wleidydd amlwg ym Mhrydain yn barod i ofyn y cwestiwn hwn eto; mae pawb fel pe baent yn ofni gwthio'n erbyn yr hysteria poblogaidd presennol. Efallai y bydd cefnogaeth y cyhoedd yn cilio pan fydd y llywodraeth yn cynnig codi treth sylweddol uwch ar bris petrol / diesel / nwy naturiol. Dylem gofio'r hyn ddigwyddodd yn Ffrainc yn ddiweddar gyda'r gilets-jaunes!




Y mis nesaf byddaf yn ystyried Newid Hinsawdd ar lefel byd-eang.

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 17 Gorffennaf 2019 am 7 yn y Festri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN
CWRDD CHWARTER – Y PRIORDY
9 Mai 2019



CWRDD CHWARTER YN Y PRIORDY



Ar Ddydd Iau, 9 Mai 2019 cynhaliwyd cyfarfodydd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yn y Priordy. Dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu cynnal yma er mis Rhagfyr 2012.

Bu dau gyfarfod, y naill yn y prynhawn am 4 a'r llall gyda'r hwyr am 7. Y cadeirydd presennol yw'r Parchedig Meirion Sewell.

Yn y gynhadledd yn y prynhawn roedd y rhannau arweiniol yng ngofal Wyn Tegryn Evans (darlleniad) ac Adrian Evans (gweddi). Estynnwyd croeso'r Eglwys ac ychydig o sylwadau am y Priordy yn ei bro heddiw gan Alun Charles. Yr organydd oedd Janet Davies.

Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd rhan gan Elis Jones (darlleniad) a Catrin Heledd Jones (gweddi). Cafwyd eitem (Calon Lân) gan Barti Bechgyn y Priordy ac mae'n diolch yn fawr i Meinir Lloyd am ein hyfforddi ac am gyfeilio ar y noson. Cyfeiliwyd i'r emynau gan Fand y Priordy. Cafwyd anerchiad gan Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Y Parchedig Jill-Hailey Harries.

Soniodd am bwysigrwydd estyn allan o'r eglwys i'r gymuned, gan ddyfynnu enghreifftiau, ac am obaith yr Efengyl heddiw.

Rhwng y ddau gyfarfod, gwahoddwyd ein gwesteion i'r Festri ar gyfer paned a lluniaeth ysgafn. Mae'n diolch yn fawr iawn i wragedd yr eglwys am baratoi mor rhagorol ar ein cyfer.

Bu'n ddiwrnod llawen a bendithiol.

**Mae dyddiadau a lleoliadau gweddill y Cyrddau Chwarter am eleni fel a ganlyn
12 Medi – Hermon (4 a 7)
28 Tachwedd – Henllan Amgoed (10.30 a 1.30)**



Gŵyl yr Orsedd Caerfyrddin
8-13 Gorffennaf 2019



Dathlu 200 mlynedd uno'r Eisteddfod a Gorsedd y Beirdd

Gweithgareddau'r Dathlu

1 Gorffennaf ymlaen	Arddangosfa'r Orsedd yn Llyfrgell Caerfyrddin Trefnwyr: Carys Edwards 07790035520 / Gethin Thomas 07773688769
1-13 Gorffennaf Yn y Llyfrgell a'r Atom	Cyflwyniadau Iolo Morgannwg 'mewn cymeriad' Trefnwyr: Carys Edwards 07790035520 / Gethin Thomas 07773688769
Nos Fawrth 8 Gorffennaf am 6 yn y Llyfrgell	Agoriad swyddogol o Arddangosfa'r Orsedd gan Is Ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Yr Athro Medwin Hughes, DL
Nos Fawrth, 9 Gorffennaf am 7 yn Y Llwyn lorwg	Darlith gan y Dr. Geraint H. Jenkins, Aberystwyth ar "Iolo Morganwg ac Eisteddfod fawr Caerfyrddin 1819" Cadeirydd: Dr. Ioan Matthews Hyrwyddwyr: Sulwyn Thomas 01267 235385 / Alun Charles 01267 236037
Nos Fercher 10 Gorffennaf am 7 yn Y Llwyn lorwg	Noson y Dathlu i gynnwys Dadorchuddio plac, meini'r Orsedd a'r ffenestr liw, anerchiad gan yr Archdderwydd, lansio cyfrol: Yr Ŵyl, y Dre' a Iolo gan Aled Evans, Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones, adloniant a bwffe Tocynnau £12 Joan Thomas 07791 582330)
Nos Wener 12 Gorffennaf am 7, taith trwy'r dref i'r Llwyn lorwg	'Cerddi'n Cerdded' a 'Noson Dafarn' Taith gerdd a chân o Feini'r Orsedd yn y parc i'r Llwyn lorwg gyda 'Noson Dafarn' yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys. Mynediad trwy 'snoden' £7 Snodenni: Ann Lewis 07986267580 / Bryan Stephens 07821637589
Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf Parc Myrddin trwy'r dydd.	Gŵyl Ganol Dre gyda'r Orsedd fel thema Trefnir gan Fenter Iaith Gorllewin Sir Caerfyrddin 01239 712934 ymholiadau@msgsg.cymru

Croeso i bawb. Gwybodaeth bellach gan
Geraint Roberts 07814701079 geraintroberts@btinternet.com

CYMDEITHAS Y CYMOD

Nos Fawrth, Mai 20 dangoswyd ffilm arbennig iawn yn festri'r Tabernacl. Cell Caerfyrddin o Gymdeithas y Cymod drefnodd y dangosiad o'r ffilm War School.



Mae hi'n ffilm am y modd y mae'r fyddin yn ceisio denu plant mor ifanc ag oedran cynradd i ddangos diddordeb yn y fyddin er mwyn ceisio eu perswadio yn y pen draw i ymuno.

Mae'r ffilm yn dangos y technegau y mae'r llywodraeth yn ceisio eu defnyddio i ddylanwadu ar ein plant a'n pobl ifanc i feddwl am y fyddin fel gyrfa. Mae'n dangos plant ifanc iawn yn cael tro i ddefnyddio gynnu ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog. Mae'r fyddin yn mynd i mewn i'n hysgolion i gynnal gweithgareddau sy'n cael eu gweld fel hwyl, a rhai sy'n 'adeiladu cymeriad'. Mae'r dylanwadau ar yr hysbysebion, y we, ymweliadau a digwyddiadau yn teimlo'n ddiddiwedd.



Mae'r ffilm yn canolbwyntio ar dystiolaeth rhai a fu'n aelodau o'r fyddin, ond erbyn hyn yn gweld mai camgymeriad oedd, a'u bod erbyn hyn wedi dod i ddeall bod heddwch yn well ffordd o ddatrys problemau na rhyfel. Mae'r rhyfel yn dangos mai'r unig wladwriaeth yn y byd datblygiedig sydd wedi bod mewn rhyfel drwy'r 100 mlynedd ers y rhyfel byd cyntaf yw gwledydd Prydain.



Mae'r ffilm yn gofyn cwestiwn pwysig, ai rhyfel dibendraw yw'r hyn y mae trigolion Prydain ei eisiau mewn gwirionedd?

TUDALEN BLAEN

Rheswm Ann Thomas dros ddewis Salm 23....

DYMA'R salm gyntaf i mi ei darllen ar fy mhen fy hunan yn y capel. Ron i tua chwech oed a chofiaf ddysgu'r salm bron ar y cof. Mynd i fyny i'r pulpud ac edrych allan ar y gynulleidfa (camgymeriad mawr!!), dechrau'r darlleniad a dim un gair yn dod allan. Teimlo rhyw bresenoldeb wrth fy ochr yn sibrawd yn dawel '*Paid â gofidio. Fi gyda ti. Darllena'r*



salm'. Yn bryderus iawn fe gwblheais y dasg. Doeddwn i ddim yn deall beth oedd wedi digwydd ond yn gwybod fod y profiad yn syfrdanol. Wrth fynd yn hŷn, synhwyro mai'r Arglwydd oedd gyda fi yn yr oedfa.

Pan oeddwn i'n bymtheg oed, roedd rhaid i mi gael llawdriniaeth ar yr ymennydd. Felly, ar y ffordd i gael y driniaeth dyma fi'n adrodd Salm 23 a Gweddi'r Arglwydd a gofyn i'r Arglwydd am gymorth. Wrth ddeffro ar ôl y driniaeth clodfori'r Arglwydd a rhoi diolch i'r llawfeddyg am ei waith da.



Aeth blynyddoedd heibio a'r amser yn dod i drefnu fy mhriodas. Heb os nac onibai roedd rhaid cael Salm 23 yn rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r Arglwydd wedi bod gyda fi trwy fy oes ac rwy'n ffyddiog y bydd e gyda mi yn fy arwain ar hyd y llwybr cyflawn gydol fy nyddiau.

CLOD i'r Arglwydd a diolch Iddo.

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

OEDFA BLANT A PHOBL IFANC

12 Mai 2019



Aninnau ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol, roedd y gwasanaeth o'n blaen yn gyfle i'n hatgoffa am bwysigrwydd yr



wythnos hon ac am waith arbennig y mudiad ar draws y byd ac ar hyd y flwyddyn.

Cafwyd gweddi agoriadol a chroeso gan Beti-Wyn, cyn i Osian a Trystan gyhoeddi'r emyn cyntaf yn glir a hyfryd, sef '*Y mae i'n Waredwr*'. Ac i gyfeiliant hwyliog Band y Priordy roedd tipyn o fynd ar y canu!

Yn dilyn y cyhoeddiadau a'r casgliad daeth Miriam ymlaen i'r pulpud i gyhoeddi'r ail emyn, sef '*Mae nghalon mor llon*', a'r geiriau'n ein hatgoffa bod gennym gymaint i fod yn ddiolchgar amdano.

Cawsom hanes Martha a Mair gan Gwion – sôn am stori Mair yn gwrando ar Iesu wrth i'w chwaer, Martha, baratoi yn y cefndir. Yr hanes yn ein hatgoffa bod angen dewis gwneud y pethau pwysig mewn bywyd weithiau, ac anghofio am y pethau hynny sydd ddim mewn gwirionedd angen cymryd blaenoriaeth.

Yna daeth Siwan a Jac ymlaen i gyflwyno hanes merch ifanc o'r enw Kadiatu sydd yn byw yn Sierra Leone. Gwelsom ffilm fer yn adrodd ei hanes. Mae hi'n 11 oed a chanddi bedwar brawd a dwy chwaer. Mae'n breuddwydio am fod yn feddyg, ond yn yr ardal lle mae hi'n byw, tydy merched ddim yn cael ei hannog i fynd i'r ysgol.



Roedd clywed hyn yn amlwg wedi achosi cryn syndod i blant y Priordy – a ninnau'n cymryd yn ganiataol bod addysg ar gael i bob plentyn, mae'n anodd credu bod y sefyllfa mor wahanol mewn ardaloedd eraill o'r byd. Mae Kadiatu wrth ei bodd yn mynychu'r ysgol, ac yn credu'n gryf y dylai merched Sierra Leone gael yr un cyfleoedd â bechgyn y wlad. Ei neges syml i ni ydy, '*Rydym ni hefyd am gael addysg fel chi. Gadewch iddyn nhw wybod ein bod ni yma hefyd*'.

A pile of colorful, round, crystalline candies. The candies are in various colors including green, red, orange, and purple. They have a rough, crystalline texture and are piled together on a white background.

A pile of colorful, round, crystalline candies. The candies are in various colors including green, red, orange, and purple. They have a rough, crystalline texture and are piled together on a white background.

Neuadd Bronwydd

Kathryn Mannix

**WITH
THE
END
IN
MIND**

HOPE, FAITH, AND
HOW TO LIVE AND DIE WELL

“There aren't all that many books that change the way you see the world. This book really might.” —*Shirley Turk*

“Excellent reading for anyone who will experience death, and that means all of us.” —*Booklist*

I would like to be
my compassionate, wise
doctor when I'm dying.



SUNDAY
TIMES
BESTSELLER

*Tocynnau: £5 (llyfrau Goldstone, Heol y Neuadd, Caerfyrddin) ac Eventbrite
Elw at Dŷ Cymorth*

Manylion pellach: Dr Eirian Lewis, Bancyfelin gweneirian.lewis@yahoo.co.uk

FRANCES RIDLEY HAVERGAL **(1836-1879)** **Emynydd a Bardd**



Ganed Frances Ridley Havergal yn Astley, Swydd Caerwrangon ar 14 Rhagfyr 1836, yr ieuengaf o chwech o blant i'r Parchedig W H Havergal, ficer y plwyf ac emynydd a chyfansoddwr emyn-donau, a'i briod Jane (Head). Ym 1845, symudodd y teulu i Gaerwrangon lle daeth William Havergal yn ficer Eglwys Sain Nicholas.

Ym 1848 bu farw Jane, mam Frances ar ôl salwch maith. Aeth Frances i ysgol breifat ym 1850 am y tro cyntaf a thra oedd yno ymrwymodd ei hunan i Grist. Ym 1852 a'i thad wedi ailbriodi, bu'r teulu'n preswyllo am ychydig yn yr Almaen a Frances yn astudio yn y Louisenschule, Düsseldorf, a chyda theulu ficer Almaenig yn Oberkassel. Dychwelodd y teulu i Leamington a chafodd Frances ei derbyn yn Eglwys Gadeiriol Caerwrangon ym 1853. Bu farw'i thad yn 1870 a'i llysfam ym 1878 a symudodd Frances a'i chwaer Maria i letya am seibiant a thawelwch i dŷ o'r enw *Park Villa* ar ben bryn ger pentref Newton, yn edrych i lawr ar draeth Bae Caswel ym Mhenrhyn Gŵyr. Bu farw yno ar 3 Mehefin 1879, sef 140 o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, a chladdwyd ei gweddillion yn Astley. Yn ddiweddarach, cafodd *Park Villa* ei ailenwi'n



Havergal a dadorchuddiwyd plac yno ym mis Gorffennaf 1937 ar achlysur canmlwyddiant geni Frances. Mae stryd gyfagos i'w chartref olaf wedi'i henwi'n *Clos Havergal*.

Roedd Frances yn ferch ddisglair, yn gerddor dawnus a Christion selog. Doedd hi ddim yn mwynhau'r iechyd gorau a byr fu'i bywyd ond gwnaeth argraff fawr ar ei chenhedlaeth drwy'i hemynau a'i gweithiau eraill. Byddai'n teithio tipyn, yn enwedig i wahanol fannau yn y Swistir. Iwerddon, yr Alban a Chymru.

Yn wir, ymwelodd â Chymru sawl tro cyn ymsefydlu ym Mae Caswel a'r mynyddoedd yn apelio'n fawr ati. Roedd ei hoffter o'n wlad yn ddigon cryf hefyd i'w hannog i ddysgu peth Cymraeg. Roedd hynny'n ychwanegol at Ffrangeg, Almaeneg a dysgu Hebraeg a Groeg y Testament Newydd, er gwaethaf annigonoldeb ei haddysg ffurfiol oherwydd salwch.

Sefydlodd sawl cyswllt wrth ddod i Gymru i aros. Mae'r blog *welldigger* yn eu holrhain. Gwnaeth lawer o waith gyda'r YMCA yng Nghasnewydd ac Abertawe. Cwrddodd â'r emynyddes Jeanette Threlfall (1821-80) pan oedd ar wyliau yn Ninbych-y-pysgod a chafodd. hithau ddylanwad mawr arni. Daeth yr efenglydd John Tinson Wrenford (1825-1904), ficer Eglwys Sant Paul yng Nghasnewydd, yn gyfaill agos iawn iddi. Gweithiodd yn agos hefyd â'r Parchedig Ddr Samuel Christopher Morgan (1836-1898), rheithor Eglwys y Santes Fair Abertawe, ffrind teuluol gyda chysylltiadau â Chaerwrangon a Leamington. Yn ystod blwyddyn olaf ei hoes bu'n cefnogi gwaith Samuel Gielleprie Prout (1822-1911), gweithiwr elusennol ac arlunydd ac yntau yn Nant-y-glo ym Mhen y Cymoedd ar y pryd. A chafodd ei gwaith rhyddiaith mwyaf adnabyddus '*Kept for the Master's Use*' ei gwblhau yn ystod misoedd olaf ei bywyd pan oedd yn byw ym Mae Caswell.

Cyfieithwyd sawl emyn o waith Frances i'r Gymraeg. Mewn erthygl a gyhoeddwyd adeg dathlu 150 mlynedd ei geni yn *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*, cyfeiriodd E Wyn James at 16 ohonynt gan nodi, o bosib, fod rhagor wedi'u cyfieithu a bod rhagor o gyfieithiadau ar gael o rai o'r emynau a nodwyd ganddo.

Mae dau gyfieithiad o'u hemynau yn *Caneuon Ffydd*, sef *Cymer, Arglwydd, f'einioes i* (Emyn 767) a *Gwawr wedi hirnos, cân wedi loes* (Emyn 789).

O ran *Gwawr wedi hirnos*, y ddau bennill cyntaf sy'n gyfieithiad o emyn Frances '*Light after darkness*' gan J D Vernon Lewis (1879-1970) ac ychwanegodd yntau dri phennill arall o'i eiddo'i hun.

Mae *Cymer, Arglwydd...* yn gyfieithiad o emyn Frances '*Take my life and let it be*' ar ei hyd. Fe'i cyfansoddwyd gan Frances i annog cwmni o ddeg yn nhŷ cyfaill iddi yn Llundain i gysegru'u hunain yn gyfan gwbl i Grist. Y cyfieithydd yw **John Morris Jones (1865-1929)**. Mae'r emyn Cymraeg a Saesneg yn parhau i fod yn boblogaidd iawn a dyma ddyfynnu'r pennill cyntaf yn y naill iaith a'r llall i orffen:



**Cymer, Arglwydd, f'einioes i
i'w chysegru oll i ti;
cymer fy munudau i fod
fyth yn llifo er dy glod.**

**Take my life, and let it be
Consecrated, Lord, to Thee;
Take my moments and my days,
Let them flow in ceaseless praise.**

**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**





NEWYDDION SALEM, CAERNARFON

DATHLU ACHOS SALEM



Roedd achos Salem yn 157 eleni. ac ar ben-
blwydd yr achos cynhelir ein gŵyl bregethu .
Yn anffodus, nid oedd y pregethwr a
wahoddwyd yn medru dod - arweiniwyd y
ghwasanaethau felly gan y Gweinidog. Yn
dilyn yr oedfa aeth rhai o'r aelodau allan am
ginio Sul.

CYMORTH CRISTNOGOL

Rydym yn ddiolchgar i 18 o aelodau'r
eglwys wirfoddoli i gasglu o ddrws i ddrws.
Ar ddiwedd yr wythnos cynhaliwyd oedfa
undebol dan nawdd Cyngor Eglwysi'r Dref
yn eglwys Noddfa.



NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA IEUENCTID CYMRU



Defnyddiwyd oedfa bore Sul 19 Mai i roi sylw
i'r neges. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Alys,
Gwydion a Gruff, tri o ieuenctid yr eglwys, a
dosbarthwyd copi o'r neges wych i bob aelod.



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

BORE IAU 27 Mehefin 2019

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



Beth am droi at: cyfundeb.com?

Pererindod yr Ofalaeth Dydd Sul, 23 Mehefin 2019

i Geredigion

Bws yn gadael

Bancyfelin	9.15	Heol Awst	9.35
Canu	9.25	Heol y Priordy	9.45

Coffi am 10.30



Ymuno yn yr oedfa yng Nghapel Brynrhiwgaled
am 2 o'r gloch

Pregethir gan Y Parchg John Gwilym Jones

Paned yn y festri wedi'r oedfa

Aberaeron am 4 o'r gloch

Swper (cinio dydd Sul) yn Ffostrasol am 6 o'r gloch



Pris y dydd £21

Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib

Croeso i bawb!



DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS

Mehefin		Gorffennaf	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
David Lloyd		David Lloyd	



BLODAU



Merhefin	2		Gorffennaf	7	Jan Davies
	9	Rhyswen Michael		14	
	16			21	Margaret Lloyd Evans
	23	June Thomas		28	
	30				

PARATOI'R BWRDD CYMUN



Mehefin	2	Hwyr	Margaret Lloyd Davies a Mari Jenkins
Gorffennaf	7	Bore	Alwen Owen a Fiona Elias



YMWELWYR



Mai / Mehefin	Glenys Thomas, Eira Jenkins ac Eira Phillips
Gorffennaf / Awst	Nansi a Desmond Hayes



DARLLENWYR



Mehefin	2	Delyth Gwawr Davies	Gorffennaf	7	Luned Voyle
	9	Ffion Parsons		14	Eirlys Jones
	16	Y Tadau		21	
	23			28	Glenys Thomas
	30	Adrian Evans			



CYHOEDDWYR



Mehefin	Wyn Tegryn Evans	Gorffennaf	Gareth Gravell
---------	------------------	------------	----------------

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Gwenan Schiavone a Gruff Ifan ar enedigaeth tripled i o fabanod ar Nos Wener 24 Mai 2019, sef Gwenlli Marged (4 pwys 3 owns), Brychan Rheon (5 pwys 12 owns) a Nyfain Alaw (4 pwys 3 owns), a brawd a dwy chwaer fach newydd i'r gefeilliaid Lliwen Fflur a Gwern Ceian. Pob bendith ar y teulu!



MUNUD I FEDDWL

Bydd y Gweinidog ar *Munud i Feddwl* ar raglen y Post Cyntaf ar Radio Cymru bob bore Mawrth am 7.20 yn ystod mis Mehefin

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Philip Jones, Tudur Dylan Jones, Elin Wyn ac Alun Lenny am y lluniau'r mis hwn



**CAMP
Y
SIP!**





CROESO cynnes iawn i Emlyn Schaivone a dderbyniwyd yn aelod newydd ar 5 Mai 2019. Mae Emlyn yn gyfarwydd iawn i ni fel Cyngorydd Sirol a Maer Tref Caerfyrddin yn ystod 2018-19 a Beti-Wyn oedd ei Gaplan. Mae'n ewythr hefyd i Gwenan Schiavone a'r plant Lliwen Fflur, Gwern Ceian, Gwenlli Marged, Brychan Rheon a Nyfain Alaw sy'n aelodau gyda ni. Yn briodol ddigon yn ystod y Cymundeb ar y Sul y daeth Emlyn yn aelod, canwyd un o emynau aelod arall o'r teulu ac un o gyn-weinidogion y Priorddy, y diweddar Barchedig E Keri Evans, (*Â'n hyder yn yr Iesu mawr Caneuon Ffydd 667*, sef efelychiad o emyn George Rawson).

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef Mari Jenkins, Meinir Jones a David Lloyd. Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.



Bu Osian Hayes fel aelod o Gôr Ysgol Teilo Sant, buddugwyr y gystadleuaeth **Côr Cymru Cynradd 2019**. – ar **Heno** ar **S4C** yn canu *Hei Ti'n Cŵl* gan Robat Arwyn.

Bydd yr arlunydd Wynne Jenkins yn arddangos casgliad o'i waith yn Oriel Ffin-y-Parc yn Llanrwst rhwng 23 Mehefin a 17 Gorffennaf 2019. Mae'r Oriel yn lle dymunol dros ben i fynd iddo os ydych yn digwydd bod yn yr ardal.

Cynhaliwyd **Ras y Maer** yn nhref Caerfyrddin ar Wyl Banc Mai ac ymhlith yr enillwyr roedd Gwenan a ddaeth yn drydydd yn y Ras Merched B3 a 4. Da iawn ti!



Mae'n siŵr bod chwaraewyr y Priorddy'n mwynhau pob munud ar y cyrsiau golf y dyddiau hyn. A deryn bach yn dweud bod Olive Lloyd yn cael hwyl arni ac wedi cael mwy nag un byrdi'n ddiweddar!!

Mae **Pwyllgor Apêl Caerfyrddin a'r Cylch** ar gyfer Esiteddfod yr Urdd 2021 Sir Gâr wedi'i ffurfio a phob dymuniad da i'r canlynol wrth y gwaith: Iwan Evans (Cadeirydd), Aled Williams (Is Gadeirydd) Dewi Snelson (Ysgrifennydd). Carys Morgans (Trysorydd) a Lleucu Edwards (Swyddog cyhoeddusrwydd / cyfryngau cymdeithasol). Cynrychiolaeth dda o'r Priorddy!

Llongyfarchiadau i Gwern O'Leary ar gael ei ddewis yn Chwaraewr y Flwyddyn dros Glwb Pêl-droed Seintiau Caerfyrddin dan 9 oed. Ardderchog yn wir! Ac ar **Mwy na Sgorio** ar **S4C** gwelwyd Peter Hughes Griffiths, tad-cu Gwern, yn sôn am y tro y sgoriodd dros Abertawe yng Nghwpan Cymru. Yn anffodus, chwarae dros Rydaman roedd Peter a chicio i'w gôl ei hunan wnaeth e!! A wel, mae'r goreuon yn methu weithiau!!



A llongyfarchiadau mawr i Carina a Betsan, aelodau o Dîm Pêl-droed Merched Dan 15 Ysgol Bro Myrddin ar ennill gêm derfynol Cwpan Ysgolion Cymru o 4-0 ar gaeau'r Seintiau Newydd yng Nghroesoswallt. Rhagorol!

Ac yng Nghyfarfod Blynnyddol Cyngor Tref Caerfyrddin i sefydlu'r Maer newydd, y Cynghorydd Jeff Thomas, penodwyd Beti-Wyn yn gaplan iddo. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

Dau a fu'n mynegi pryderon am gynlluniau i symud lleoliad archfarchnad Lidl yng Nghaerfyrddin oedd Henry Wilkins ac Eira Phillips ar **Newyddion 9** ar **S4C**. Maent yn byw yn agos iawn at yr archfarchnad ar Heol y Prior ac, fel sawl un arall, yn pryderu y bydd y siop yn symud i ran arall o'r dref, a dim sicrwydd beth fydd yn agor ar yr hen safle.

Un arall a fu ar **Newyddion 9** ar **S4C** yw Tudur Dylan Jones yn ceisio datrys dirgelwch. Mae wrthi ar hyn o bryd yn paratoi cyfrol i gyd-fynd â **Gŵyl yr Orsedd** i'w chynnal yng Nghaerfyrddin ddechrau Gorffennaf i ddatlu union 200 mlynedd ers i'r Eisteddfod ymweld â'r dref ac uno â Gorsedd y Beirdd. Am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod honno cyflwynwyd cadair ar gyfer seremoni'r bardd buddugol sydd i'w gweld yn Amgueddfa Sir Gâr yn Abergwili. Doedd y bardd ddim yn cadw'r gadair hon yn barhaol. Mae ymchwil Dylan yn awgrymu fod cadair arall wedi'i chyflwyno i'r bardd buddugol, Gwallter Mechain (Y Parchedig Walter Davies) ryw flwyddyn a hanner yn ddiweddarach. A cheisio dod o hyd iddi mae Dylan gan ofyn i bawb edrych allan am ryw gadair fach â phlac arian arni, yn dweud *Calon Wrth Galon*. Tybed a ydych chi'n gallu helpu?

CLYWYD cystadleuaeth rhwng Aberhafren a Thir Iral yn ail rownd cystadleuaeth 2019 ar **Y Talwrn** ar **Radio Cymru** yn ddiweddar. Mae Tir Iral yn cynrychioli Caerdydd, Cymru a'r Byd ac aelod o'r tîm oedd Tudur Dylan Jones. Cynhaliwyd yr ornest yn Nhy'r Gwrhyd, Pontardawe a Thir Iral a orfu – ond roedd hi'n go dynn!



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf / Awst i'n
Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Ann Griffiths ac Ivor Evans ar golli
cyfnither iddynt, Valerie Jean Thornton ar 25 Ebrill 2019.
Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.



Y SULLADUR




Mehefin	2	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
<i>Sul y Pentecost</i>	9	<i>Bore</i>	Sul y Maer gyda'n Gweinidog yn Heol Awst am 10	
<i>Sul y Tadau</i>	16	<i>Bore</i>	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	23	<i>Bore P'nawn Hwyr</i>	Pererindod yr Ofalaeth Manylion y tu mewn	
	30	<i>Bore P'nawn</i>	Hefin Wyn Oedfai i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda Hefin Wyn Gŵyl Hirddydd Haf ym Mharc y Dref am 4.30	

Gorffennaf	7	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	14	<i>Bore</i>	Sul y Cyfundeb Manylion y tu mewn	
	21	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	28	<i>Bore P'nawn</i>	Y Parchedig Gwyn Elfyn Jones Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'r Parchediog Gwyn Elfyn Jones	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu (Sul y Tadau) P – Parti Diwedd Tymor BB – Bwrlwm Bro (Yr Atom)								
Mehefin					Gorffennaf			
2	9	16	23	30	7	14	21	28
✓ PIP	-	OD	-	✓	P	BB	-	-

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD**